

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig, y Gogledd a'r Trefnydd

25 Hydref 2021

Annwyl Trefnydd,

Ar 28 Medi, bu Senedd Cymru'n trafod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU gan benderfynu ei gymeradwyo. Roedd y cynnig yn ystyried cymal 56 ac atodlen 9 i roi pwerau i Weinidogion Cymru godi tâl am eitemau plastig untro.

Yr wyf wedi gofyn, o fewn y broses deddfwriaethol bresennol, am gael cyflwyno gwelliant i gymal 56 ac atodlen 9 o Fil yr Amgylchedd mewn perthynas â phwerau i godi tâl am eitemau plastig untro ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi cytuno i hynny. Bydd y gwelliant yn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru yr un pwerau â'r Ysgrifennydd Gwladol i godi tâl am bob eitem untro, waeth beth fo'u defnydd.

Byddai'r gwelliant hwn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Byddwn fel arfer yn gosod Memorandwm Atodol ond yn anffodus gan fod y Bil bellach wedi cyrraedd y cam gwelliannau ac am fod y Pwyllgorau a Senedd Cymru ar wyliau yr wythnos hon, nid oes digon o amser i gynnal dadl yn Senedd Cymru cyn i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol. Felly, ysgrifennaf atoch i roi gwybod i chi am y newid yn y maes hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Economi a Seilwaith.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.